GIG

*Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth Glinigol*

# Ffaloposgopi gyda chathetr cyfechelog

## Deall arweiniad NICE – gwybodaeth i bobl sy'n ystyried y weithdrefn, a'r cyhoedd

Mehefin 2004

**Ffaloposgopi gyda chathetr cyfechelog**
**Deall arweiniad NICE – gwybodaeth i bobl sy'n ystyried y weithdrefn, a'r cyhoedd**

**Dyddiad cyhoeddi:** Mehefin 2004

**I archebu copïau**
Gellir archebu copïau o'r llyfryn hwn o Linell Ymateb y GIG; ffoniwch 0870 1555 455 a dyfynnwch rif cyfeirnod N0587. Mae copi Saesneg yn unig ar gael hefyd, rhif cyfeirnod N0586. Mae arweiniad ymyriadau NICE y seiliwyd y wybodaeth hon arno ar gael o wefan NICE (www.nice.org.uk). Gellir cael copïau hefyd o Linell Ymateb y GIG, rhif cyfeirnod N0585.


## Y Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth Glinigol

MidCity Place
71 High Holborn
London
WC1V 6NA

Gwefan: www.nice.org.uk



ISBN: 1-84257-650-X

Cyhoeddwyd gan y Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth Glinigol Mehefin 2004
Gosodwyd y Testun gan Icon Design, Eton
Argraffwyd gan Abba Litho Sales Limited, Llundain



© Y Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth Glinigol, Mehefin 2004 . Cedwir pob hawl. Gellir atgynhyrchu'r deunydd hwn am ddim at ddibenion addysgol ac at ddibenion nad ydynt yn gysylltiedig ag elw o fewn y GIG. Ni chaniateir atgynhyrchu gan neu ar gyfer sefydliadau masnachol heb ganiatâd ysgrifenedig uniongyrchol y Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth Glinigol.

# Cynnwys


| | |
|---|---|
| Ynglŷn â'r wybodaeth hon | 4 |
| Ynglŷn â ffaloposgopi gyda chathetr cyfechelog | 5 |
| Beth y mae NICE wedi'i benderfynu? | 8 |
| Beth y mae'r penderfyniad yn ei olygu i chi | 9 |
| Gwybodaeth bellach | 10 |

# Ynglŷn â'r wybodaeth hon

Mae'r wybodaeth hon yn disgrifio'r arweiniad y mae'r Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth Glinigol (NICE) wedi ei ddosbarthu i'r GIG ar weithdrefn a elwir yn ffaloposgopi gyda chathetr cyfechelog. Nid yw'n ddisgrifiad cyflawn o'r hyn y mae'r weithdrefn yn ei olygu – dylai tîm gofal iechyd y claf ei disgrifio yn fanwl.

Mae NICE wedi edrych ar p'un a yw ffaloposgopi gyda chathetr cyfechelog yn ddigon diogel ac yn gweithio'n ddigon da i'w ddefnyddio'n rheolaidd pan ymchwilir i broblemau ffrwythlondeb ymhlith merched.

Er mwyn llunio'r arweiniad hwn, mae NICE wedi:

- edrych ar ganlyniadau astudiaethau ar ddiogelwch ffaloposgopi gyda chathetr cyfechelog a pha mor dda y mae'r weithdrefn yn gweithio
- gofyn am farn arbenigwyr
- gofyn am farn sefydliadau sy'n cynrychioli gweithwyr gofal iechyd proffesiynol a'r cleifion a'r gofalwyr y bydd yr arweiniad hwn yn effeithio arnynt.

Mae'r arweiniad hwn yn rhan o'r gwaith y mae NICE yn ei wneud ar 'ymyriadau' (gweler 'Gwybodaeth bellach' ar y dudalen olaf).

## Ynglŷn â ffaloposgopi gyda chathetr cyfechelog

Mae ffaloposgopi gyda chathetr cyfechelog yn ffordd o edrych y tu mewn i diwbiau ffalopaidd merch i weld a oes unrhyw broblemau a allai fod yn effeithio ar ei gallu i feichiogi. Y tiwbiau sy'n cysylltu'r ofarïau â'r groth (a elwir hefyd yn wterws) yw'r tiwbiau ffalopaidd. Bob mis, caiff ŵy ei ryddhau o un o'r ofarïau gan deithio i lawr un o'r tiwbiau ffalopaidd i'r groth. Os bydd y ferch yn cael rhyw a bod sberm y dyn yn ffrwythloni'r ŵy ar ei daith, mae'n bosibl y bydd y ferch yn beichiogi. Ond os oes problem yn y tiwb ffalopaidd, er enghraifft, os yw wedi'i rwystro mewn ryw ffordd, mae'n bosibl y bydd y broses ffrwythloni yn llawer llai tebygol o ddigwydd ac y bydd y ferch yn ei chael hi'n anos na'r disgwyl i feichiogi.

Yn ystod y weithdrefn ffaloposgopi gyda chathetr cyfechelog, mae'r meddyg yn rhoi tiwb cul i mewn i fagina'r ferch ac yn ei basio drwy geg y groth a'i chroth ac i mewn i'r tiwb ffalopaidd. Caiff darn o offer cul gyda chamera bach iawn ar y pen ei basio i fyny'r tiwb hwn i mewn i'r tiwb ffalopaidd a dyma sut y gall y meddyg weld a oes unrhyw beth yn amlwg o'i le. Gan ddibynnu ar yr hyn a welir, mae'n bosibl y gall y meddyg drin rhwystr ar yr un pryd drwy basio balŵn i fyny drwy'r tiwb a'i chwythu yn araf yn y tiwb ffalopaidd i ehangu'r ardal. Ni ddefnyddir ffaloposgopi gyda chathetr cyfechelog yn aml iawn yn y DU ar hyn o bryd.

Mae ffyrdd eraill o ymchwilio i broblemau sy'n ymwneud â'r tiwbiau ffalopaidd. Ymhlith y rhain mae:

- prawf pelydr X o'r enw 'hysterosalpingograffi'
- laparosgopi a phrawf lliw, lle y rhoddir offeryn cul gyda chamera arno y tu mewn i abdomen y ferch drwy doriad bach. Mae'r meddyg yn edrych ar y tiwbiau ffalopaidd a'r ofarïau ac yn gweld beth sy'n digwydd pan chwistrellir lliw diogel drwy'r tiwbiau ffalopaidd. Os yw'r tiwbiau wedi'u rhwystro, ni ddaw'r lliw allan yn y pen yn y ffordd arferol
- edrych y tu mewn i'r tiwbiau ffalopaidd gan ddefnyddio offer a roddir drwy naill ai doriadau bach neu agoriad mwy yn abdomen y ferch.

## Pa mor dda y mae'n gweithio

### Yr hyn a ddywedodd yr astudiaethau

Ni ddaeth NICE o hyd i unrhyw astudiaethau o safon a oedd yn edrych ar ba mor dda yr oedd ffaloposgopi gyda chathetr cyfechelog yn gweithio. Yn rhai o'r astudiaethau a ganfuodd NICE, dim ond i edrych am broblemau yn y tiwbiau ffalopaidd y defnyddiwyd y dull, tra bod eraill yn ei ddefnyddio i drin y broblem hefyd. Roedd hyn yn ei gwneud hi'n anos barnu pa mor dda yr oedd yn gweithio yn gyffredinol.

Yn yr astudiaethau a ddefnyddiodd ffaloposgopi gyda chathetr cyfechelog i edrych am broblemau, llwyddodd y meddyg i roi'r tiwb i mewn i'r safle cywir yn y rhan fwyaf o'r merched (tua 85%). Fodd bynnag, nid oedd bob amser yn bosibl i feddygon weld y tiwb ffalopaidd yn gywir ac roedd gan astudiaethau gwahanol lefelau gwahanol o lwyddiant yn hyn o beth.

Mewn un astudiaeth a edrychodd ar ba mor dda yr oedd y weithdrefn yn gweithio o'i chyfuno â'r driniaeth a oedd yn defnyddio balŵn cafodd ychydig o dan hanner y tiwbiau ffalopaidd eu 'hagor' yn llwyddiannus o ganlyniad i'r weithdrefn. Mewn astudiaeth arall, llwyddodd y weithdrefn ffaloposgopi gyda chathetr cyfechelog i agor tua thraean o'r tiwbiau ffalopaidd.

Canfu NICE un astudiaeth a oedd yn croeswirio canlyniadau ffaloposgopi gyda chathetr cyfechelog â chanlyniadau'r 'hysterosalpingograffi' (y prawf pelydr X). Nid oedd llawer o gysondeb rhwng y ddau brawf. O blith 20 o diwbiau ffalopaidd y canfuwyd eu bod wedi'u rhwystro gan ddefnyddio'r prawf pelydr X, dim ond 3 y dangoswyd eu bod wedi'u rhwystro gan ddefnyddio ffaloposgopi gyda chathetr cyfechelog. Ond y broblem gyda'r astudiaeth hon oedd nad oedd ffordd sicr o weld pa diwbiau oedd yn bendant wedi'u rhwystro, felly nid oedd yn bosibl gweld pa brawf oedd fwyaf cywir.

### Yr hyn a ddywedodd yr arbenigwyr

Dywedodd un o'r arbenigwyr fod meddygon yn aml yn cael lluniau o ansawdd gwael gan ddefnyddio ffaloposgopi gyda chathetr cyfechelog, a phan ddefnyddiwyd y weithdrefn hon, nid oedd yn glir beth oedd yn normal ac yn annormal ar gyfer tiwb ffalopaidd.

## Risgiau a phroblemau posibl

### Yr hyn a ddywedodd yr astudiaethau

Yn yr astudiaethau, y prif broblemau a oedd yn effeithio' ar ferched a gafodd ffaloposgopi gyda chathetr cyfechelog oedd:

- niwed i'r tiwb ffalopaidd (a oedd yn effeithio ar hyd at 4 tiwb o 100)
- niwed i'r groth (a ddigwyddodd mewn 2 o bob 100 o weithdrefnau).

Dywedodd un astudiaeth i tua chwarter y merched oedd â rhwystr ym mhen pellaf eu tiwb ffalopaidd gael problem yn ystod y weithdrefn neu ar ei hôl. Ond nid oedd yn glir p'un a gafodd pob un o'r merched hyn ffaloposgopi gyda chathetr cyfechelog, gan fod rhai merched yn yr astudiaeth wedi cael gweithdrefn arall.

### Yr hyn a ddywedodd yr arbenigwyr

Dywedodd un arbenigwr mai niwed i'r tiwb ffalopaidd oedd y broblem fwyaf tebygol, ond nad oedd hyn fel rheol yn ddifrifol.

## Beth y mae NICE wedi ei benderfynu?

Mae NICE wedi penderfynu, os yw meddyg yn dymuno cynnal ffaloposgopi gyda chathetr cyfechelog, y dylai sicrhau bod y claf yn deall yr hyn y mae'r weithdrefn yn ei olygu a bod ansicrwydd o hyd ynglŷn â diogelwch y weithdrefn a pha mor dda y mae'n gweithio. Dylid sicrhau bod trefniadau arbennig ar waith fel mai dim ond ar ôl cael y drafodaeth hon y bydd y claf yn cytuno i gael y weithdrefn.

Mae'n bosibl y bydd NICE yn edrych ar y weithdrefn eto os daw gwybodaeth newydd i'r amlwg.

## Beth y mae'r penderfyniad yn ei olygu i chi

Efallai fod eich meddyg wedi cynnig ffaloposgopi gyda chathetr cyfechelog i chi. Mae NICE wedi ystyried y weithdrefn hon am ei bod yn gymharol newydd. Mae NICE wedi penderfynu bod ansicrwydd am fanteision a risgiau ffaloposgopi gyda chathetr cyfechelog sydd angen i chi eu deall cyn cytuno iddo. Dylai eich meddyg drafod y manteision a'r risgiau gyda chi. Efallai fod rhai o'r manteision a'r risgiau hyn wedi'u disgrifio uchod.

## Gwybodaeth bellach

Mae gennych hawl i gael yr holl wybodaeth ac i gymryd rhan yn y penderfyniad a wneir am y driniaeth a gewch. Efallai y byddwch am drafod yr arweiniad hwn gyda'r meddygon a'r nyrsys sy'n gofalu amdanoch.

Gallwch ymweld â gwefan NICE (www.nice.org.uk) i gael gwybodaeth bellach am y Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth Glinigol a'r Rhaglen Ymyriadau. Mae copi o'r arweiniad llawn ar ffaloposgopi gyda chathetr cyfechelog ar wefan NICE (www.nice.org.uk/IPG062guidance), neu gallwch archebu copi o'r wefan neu drwy ffonio Llinell Ymateb y GIG ar 0870 1555 455 a dyfynnu rhif cyfeirnod N0585. Mae'r dystiolaeth a ystyriodd NICE wrth ddatblygu'r arweiniad hwn hefyd ar gael o wefan NICE.

Os hoffech gael mwy o wybodaeth am broblemau ffrwythlondeb, mae Galw Iechyd Cymru yn fan cychwyn da, ffoniwch 0845 4647, neu Galw Iechyd Cymru Ar-lein (www.nhsdirect.wales.nhs.uk).

Dyddiad: Mehefin 2004